

**MOLD TOWN COUNCIL
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804



Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

20 Ionawr 2022

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gyngorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm** ar ddydd **Mercher 26 Ionawr, 2022** trwy gyfrwng fideo-gynadledda Zoom.

Yn ddiffuant,

Y Clerc a Swyddog Cyllid

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O FUDD

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda.

3. CYHOEDDIADAU'R MAER

4. STRATEGAETH FUDDSODDI

Ystyried trefniadau amgen ar gyfer buddsoddiadau Cyngor y Dref. Bydd Mr Mark Davies, CCLA (Eglwysi, Elusennau ac Awdurdodau Lleol), y Llywodraeth Leol, yn bresennol i roi rhywfaint o gyngor proffesiynol ynghylch y mater.

Y sefyllfa bresennol - £45k mewn cronfeydd llog isel ac oddeutu £218k mewn Cronfeydd a Glustnodwyd (EMR).

5. Y DIWEDDARAF AM WASANAETHAU STRYD

Rhoi gwybodaeth i'r Cyngor ynghylch y sefyllfa bresennol yn sgil y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr 2021, rhwng y Maer, Clerc y Dref, Pennaeth Gwasanaethau Stryd ynghyd â'r Cydlynnydd Ardal, Cyngor Sir y Fflint.

6. COFNODION

6.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2021 (ynghlwm).

6.2 Derbyn a nodi Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd ac 20 Rhagfyr, 2021 (ynghlwm).

7. SWYDD WAG – WARD Y GORLLEWIN, YR WYDDGRUG

Ystyried y sefyllfa bresennol, swyddi gwag ar Bwyllgorau a swydd wag ar Gorff Allanol (Cymdeithas Gymunedol Daniel Owen).

8. CYDADRODDIAD Y SWYDDOGION BUSNES AC ADFYWIO / DIGWYDDIADAU AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Derbyn cydadroddiad y Swyddogion ar y datblygiadau diweddaraf (ynghlwm).

9. PENNU'R GYLLIDEB A'R BRAESEPT AR GYFER 2022/23

Ystyried yr adroddiad cyllideb atodedig a gymeradwywyd gan yr Is-grŵp Cyllideb ar 9 Rhagfyr 2021 a'r Adolygiad Tri Chwarter Blwyddyn (adroddiad a'r atodiadau ynghlwm).

10. CYMORTH ARIANNOL

Ystyried unrhyw geisiadau sy'n cyd-fynd â'r meini prawf yn y gyllideb sy'n weddill sef £1,560.

11. RHYBUDD O GYNNIG

11.1 To consider the Notice of Motion submitted by Cllr Tim Maunders:

'Gan nad yw Cyngor y Dref yn gallu yswirio car sioe'r Nadolig, mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoi'r car sioe i Ford Gron yr Wyddgrug'.

11.2 Ystyried y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Teresa Carberry, a eiliwyd gan y Cynghorydd Karen Hodgkinson a'r Cynghorydd Haydn Jones

Yn ystod y misoedd diwethaf bu cryn ofid ynghylch digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein tref. Mae'r math hwn o ymddygiad yn annerbyniol sy'n golygu bod llawer o bobl yn ein cymuned yn teimlo'n ofnus a dig, sy'n amlwg i'w weld yn y sylwadau a roddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn wir a roddwyd i'r cynghorwyr eu hunain.

Rwyf i'n cynnig, felly, 'y bydd y mater hwn yn cael ei drafod yng Nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn (Chwefror 2022), ynghyd â sut y gallem o bosibl roi cymorth i'r amryw asiantaethau gwahanol sy'n defnyddio'u harbenigedd proffesiynol i ymgysylltu a chydweithio â'r rhai hynny sy'n ymddwyn yn y fath fodd. Gan mai Cyngor ydym ni, gallwn ni ddangos ein bod yn rhagweithiol ac yn awyddus i gefnogi mentrau, prosiectau, gweithgareddau ac unrhyw waith sy'n cynnig cyfleoedd cadarn i bobl ifanc. Rwyf yn gofyn i Glerc y Dref roi gwahoddiadau, ar gyfer ein cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref llawn, ac anfon y gwahoddiadau at gynrychiolwyr Aura (sy'n ymwneud â chawraeon a llyfrgelloedd cymunedol), at ein PCSO, Emma Jones, ('Go Out and Get Active LGBT' a Swyddog Datblygu ar gyfer Gogledd Cymru), a SORTED Sir y Fflint (YPDAT). Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt drafod eu gwaith ac yn ein galluogi ni, y Cynghorwyr, i ddeall yn well sut y gallem gydweithio â hwy i'w cynorthwyo yn eu gwaith.'

Ffordd bosibl arall o wneud hynny fyddai inni ofyn i Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid a Phlant ddod at ei gilydd er mwyn cynnal cyfarfod o'r fath, cyn rhoi adroddiad am hyn i'r Cyngor llawn.

12. YMGYNGHORIAD AR DDEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: CANLLAWIAU STATUDOL CYNGHORAU CYMUNED A THREF

Ystyried sefydlu Is-grwp i baratoi ymateb drafft er mwyn ei gymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror (manylion copi'r ymgynhoriad ynghlwm)

[Ymgynhoriad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021: canllawiau statudol Cyngorau Cymuned a Thref \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

13. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Nodi'r adroddiad ynghlwm.

14. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol.

15. CYFRIFON / TALIADAU

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Misoedd 8 a 9 gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cyngorau lleol.

16. GWAHARDD Y CYHOEDD A'R WASG

Gwahardd aelodau'r wasg a'r cyhoedd oherwydd ystyried y wybodaeth gydgryfnachol yn yr eitem sy'n weddill.

17. SWYDDFEYDD/ADEILAD NEUADD Y DREF

Ystyried adroddiad llafar Swyddog Cyllid a Chlerc y Dref (ynghlwm).

SYLWER:

Caiff aelodau'r wasg a'r cyhoedd wyllo'r cyfarfod hwn ar y sgrin (ond ni chânt gymryd rhan) trwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref.